



Pecyn Arfarnu Ieithoedd Modern er mwyn cefnogi Cyrff Llywodraethol

Gwerthusiad o 'iechyd' ieithoedd modern yn yr ysgol a pharatoi ar gyfer Arolygon Estyn a'r Cwricwlwm Newydd

Pam bod ieithoedd yn bwysig heddiw?

Ôl-Brexit:

“Mae astudio ieithoedd a diwylliant hyd yn fwy pwysig nag erioed.”

– **Prifysgol Caergrawnt**

“Mae astudio iaith yn magu hyder, yn ehangu gwybodaeth am ddiwylliannau eraill ac yn rhoi i bobl ifanc drosolwg mwy eang o’r cyfleoedd personol a phroffesiynol sydd ar gael iddynt. Mewn cyfnod lle mae’r niferoedd sy’n dewis cymhwyster iaith yn bryderus o isel, mae’n hanfodol bod prifysgolion ac ysgolion yn gweithio gyda’i gilydd er mwyn gwyrddroi’r duedd hon”

Yr Athro Claire Gorrara, Athro mewn Astudiaethau Ffrengig, Prifysgol Caerdydd

Dywed Jenny Scott, cyfarwyddwr British Council Cymru, :


“Bydd unrhyw brinder o ieithyddion yn y dyfodol yn cael effaith ddifrifol ar fusnes, twristiaeth ac ymgysylltiad rhyngwladol Cymru, yn enwedig gan fod meithrin cysylltiadau a masnach ryngwladol yn bwysicach nag erioed. Rhaid i ni newid statws dysgu ieithoedd tramor modern er mwyn eu diogelu a phwysleisio eu gwerth yn ein system addysg.”

“Mae Brexit yn golygu y bydd angen mwy o siaradwyr Sbaeneg, Mandarin, Ffrangeg, Arabeg ac Almaeneg”.

– **TES**

Beth sy'n digwydd mewn ysgolion yng Nghymru heddiw?

Y dirywiad yn nifer y cofrestriadau ITM yng Nghymru 2002-2019



A ydych chi'n ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn eich ysgol chi?

- Pa mor bwysig yw ieithoedd modern yn eich ysgol chi?
- A ydych chi'n gwybod faint o ddisgyblion sy'n astudio ieithoedd modern?
- A ydych chi'n gwybod os yw'r niferoedd yn cynyddu neu'n lleihau?
- A ydych chi'n gwybod beth yw barn disgyblion am astudio ieithoedd?
- A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw rwystrau neu heriau i'r niferoedd sy'n dewis astudio ieithoedd – blociau opsiwn, staffio, lleihad yn y nifer o oriau dysgu?
- A ydych chi'n siwr y bydd ieithoedd yn cael lle amlwg wrth i chi gyflwyno'r Cwricwlwm Newydd – a fydd pawb yn cael cyfle i astudio iaith?



Paham dylem wneud arolwg?

- ✦ i'n cynorthwyo i baratoi ar gyfer Arolygon Estyn.
- ✦ i ofyn cwestiynau allweddol am y paratodau ar gyfer y Cwricwlwm Newydd.
- ✦ er mwyn cytuno ar y weledigaeth sydd gennym ar gyfer ieithoedd yn yr ysgol.
- ✦ er mwyn casglu data a gwybodaeth i werthuso 'iechyd' ieithoedd modern.
- ✦ er mwyn penderfynu ar anghenion ein disgyblion
- ✦ i ystyried unrhyw heriau a thrafod datrysiadau posibl.
- ✦ Cynyddu'r niferoedd sy'n dewis astudio ieithoedd modern – adeiladu capasiti

Sut i gynnal yr arolwg

Mae angen i ni:

- 1 Benodi llywodraethwr i fod yn gyfrifol am yr arolwg a bod yn Llywodraethwr Cyswllt Ieithoedd Modern.
- 2 Edrych ar ddata allweddol er mwyn darganfod y niferoedd sy'n dewis astudio Ieithoedd Modern a'r safonau a gyrhaeddir.
- 3 Gwneud yr arolwg gyda'r corff llywodraethol unai yn unigol neu mewn cyfarfod llawn y corff llywodraethol – gall hyn gynnwys gwneud arolwg disgyblion efallai.
- 4 Cefnogi'r Llywodraethwr Cyswllt i baratoi ymateb wedi ei goladu (gan gynnwys data allweddol) i'w gyflwyno mewn cyfarfod o'r Corff Llywodraethol
- 5 Trafod yr adroddiad gyda'r uwch dîm rheoli a chytuno ar gynllun gweithredu lle bo'n briodol.
- 6 Adnabod y cymorth sydd ar gael er mwyn datblygu e.e. cysylltiadau busnes, cydweithio â Llwybrau at Ieithoedd Cymru, adolygu'r blociau opsiwn a'r oriau a ddyrennir ar gyfer ieithoedd



Beth nesaf?

- Cytuno ar sut i fonitro'r cynllun gweithredu.
- Ceisio ar gymorth oddi wrth sefydliadau allanol os oes angen.
- Gall Llwybrau at Ieithoedd Cymru ein cynorthwyo trwy:
 - ddatblygu cylch gorchwyl y Llywodraethwr Cyswllt Ieithoedd Modern
 - ddatblygu cysylltiadau gyda sefydliadau eraill
 - Ddarparu cyfarfod hanner diwrnod gyda'n Llywodraethwr Cyswllt Ieithoedd Modern er mwyn trafod yr arolwg a rhannu arfer dda.
 - gynnig cefnogaeth barhaus a'n cyfeirio at weithgareddau ychwanegol cyffrous a mentrau er mwyn ein cynorthwyo i lywio ein darpariaeth iaith. <https://routesintolanguagescymru.co.uk/>
- Bydd 'Governors Cymru' yn medru darparu gwybodaeth bellach am rôl y llywodraethwr cyswllt www.governors.Cymru

Rhai ffeithiau iaith i'w hystyried

Manteision addysgiadol ar gyfer disgyblion

Mae ieithoedd yn atgyfnerthu:

- Llythrennedd yn gyffredinol
-hyblygrwydd gwybyddol

- sgiliau aml-dasgio a chreadigrwydd.
- hyder a chyfathrebu.

Mae'r sgiliau a ddysgir mewn gwersi ieithoedd yn cael eu trosglwyddo i bynciau eraill y cwricwlwm ac maent yn medru gwella perfformiad academaidd yn gyffredinol – e.e sgiliau'r côf



Mae ieithoedd yn rhoi i'n disgyblion fantais yn y farchnad swyddi, mewn ceisiadau prifysgol/coleg, a chyflogau uwch.

Bydd sgiliau iaith yn hanfodol yn y Brydain ôl-Brexit – masnach ac economi

Dogfennau ychwanegol

- British Council (2019) *Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2019*.
https://wales.britishcouncil.org/sites/default/files/language_trends_report_-_welsh_final.pdf
- British Council (2018) *Ieithoedd y Dyfodol*.
https://wales.britishcouncil.org/sites/default/files/ieithoedd_y_dyfodol.pdf
- Daniel Roberts (2018) *Mind your language: A short report into Wales, Brexit and the study of Modern Foreign Languages*. <https://www.gorwel.wales/wp-content/uploads/2018/06/2806-GORWEL-MYL-Report-04.pdf>
- Estyn (2016) *Modern Foreign Languages*. <https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Modern%2520foreign%2520languages%2520cy.pdf>
- Welsh Government (2015) *Global futures: a plan to improve and promote modern foreign languages*.
<https://gov.wales/global-futures-modern-foreign-languages-plan>